# Beth yw Clawdd wat?



Offa's Dyke Association
Cymdeithas Clawdd Offa

University of Chester

## Llwybr Treftadaeth Comics
## Wrecsam

Howard Williams a John G. Swogger

# Beth yw Clawdd Wat?

## Llwybr Treftadaeth Comics Wrecsam

Testun a Dylunio gan
Howard Williams a John G. Swogger
Darluniau gan
John G. Swogger
Cyfieithiad Cymraeg gan
Dave Andrews

Noddwyd y project hwn gan

Offa's Dyke Association
Cymdeithas Clawdd Offa

University of Chester

Cyhoeddwyd gan yr
Offa's Dyke Collaboratory

© 2021

Cyhoeddir y cynhyrchiad digidol hwn dan drwydded Creative Commons: ni chewch ei addasu na'i ddefnyddio i ddibenion masnachol. Cewch ei rannu ond wrth wneud hynny rhaid cydnabod y creawdwyr mewn modd priodol.

BY NC ND

Croeso i

# Beth yw Clawdd Wat?

## Llwybr Treftadaeth Comics Wrecsam!

Gobeithiwn y bydd y llwybr treftadaeth comics hwn ar gyfer Wrecsam yn helpu i gyflwyno i chi heneb drydydd hiraf Prydain.

Codwyd Clawdd Wat yn y canoloesoedd cynnar (rhwng yn hwyr yn y 7fed a dechrau'r 9fed ganrif OC mae'n debyg). Heddiw clawdd a ffos anghyflawn ydyw sy'n amrywio o ran cyflwr. Pan godwyd ef, mae'n debyg mai adeiladwaith di-dor ydoedd a wnaed gan deyrnas Eingl-Sacsonaidd Mersia i reoli ei ffin orllewinol yn erbyn gelynion yng Nghymru. Roedd yn ymestyn am tua 64km o Ddinas Basing (Sir y Fflint) hyd at Maesbury (Sir Amwythig).

Defnyddiwch y map i weld ble medrwch ymweld â'r heneb heddiw. Porwch drwy'r paneli comics mewn unrhyw drefn i gael stori Clawdd Wat.


Mae'r map ar y ddwy dudalen nesaf yn dangos ble medrwch ymweld â'r heneb heddiw ac mae'r paneli comics yn adrodd hanes Clawdd Wat ym mhob lleoliad.

Ac os hoffech wybod mwy byth am Glawdd Wat a henebion tebyg, mae rhestr ddarllen a dolenni ar-lein i ymchwil ddiweddar ar ddiwedd y llyfryn hwn.

HOWARD WILLIAMS




Gogledd




Parhad ar y dudalen nesaf

Parhad o'r dudalen flaenorol



Dychmygwch sefyll ar gyffordd Ffordd Plas Acton a Lôn Blue Bell yn y Pandy i'r gogledd o Wrecsam pan oedd Clawdd Wat newydd ei godi gan frenhinoedd Mersia dros 1,200 o flynyddoedd yn ôl yn yr Oesoedd Canol Cynnar.

Roedd Clawdd Wat, heneb drydydd hiraf Prydain, yn gwylio llethrau gorllewinol yr Afon Alyn am tua deuddeg cilometr tua'r de o Fynydd Isa i ychwanegu at wrthgloddiau bryngaer Oes Haearn Bryn Alyn a oedd eisoes yn hynafol.

Ym Mryn Alyn, dilynai Clawdd Wat gloddiau amddiffynnol gorllewinol y fryngaer a godasid o leiaf 1,000 o flynyddoedd yn gynharach. Defnyddiwyd y fryngaer o'r newydd un ai fel caer neu fan cyfarfod tymhorol. Golygai hyn fod y tro yn yr Afon Alyn o gwmpas penrhyn strategol wedi'i amddiffyn yn dda.

Yna disgynnai'r Clawdd o'r fryngaer gan ddilyn clogwyn yr afon. Mae'n bosibl bod cadwynau ar draws yr Afon Alyn. Collir llwybr y Clawdd lle unwaith y dringai lethrau serth - a choediog bellach - drwy Wilderness Wood i'r fan lle rydych yn sefyll.

Byddai cloddio yn ein helpu i ddeall yn well beth oedd union ffurf yr heneb, i ble yr âi a pham.

Mae'r darlun hwn yn cynnig golwg ar y ffos pan oedd newydd ei chloddio ac mae palisâd ar y clawdd. Dangosir garsiwn o filwyr Mersia ar Glawdd Wat gyda begynau a gwylfeydd i'w cynorthwyo. A wyliwyd ef yn dymhorol neu gydol y flwyddyn? Ai byrhoedlog oedd ynteu a atgyfnerthwyd ef dros ddegawdau? Nid yw archaeolegwyr yn sicr byth…

## Mynediad

Ar droed ar hyd Lôn Blue Bell. I'r gorllewin o bont y rheilffordd medrwch gerdded llwybr troed gyferbyn â Mynwent Plas Acton at yr Afon Alyn ond nid oes olion o Glawdd Wat yma. Ni chaiff beiciau na sgwteri symudedd fynd i lawr y llwybr troed hwn. Mae bryngaer Bryn Alyn ar dir preifat.


Clawdd Wat ger Afon Alyn
Bryngaer Oes Haearn Bryn Alyn
Afon Alyn
Clawdd
Ffos
I'r de tua'r Pandy

Mae Clawdd Wat yn rhwbio ysgwyddau efo treftadaeth ddiwydiannol Wrecsam yn y Pandy yn ymyl Pwll Glo Gresffordd gynt.

Dinistriwyd y Clawdd gan reilffordd Wrecsam-Caer yng nghyffordd Ffordd Plas Acton a Lôn Blue Bell ond mae wedi goroesi yn y caeau i'r de lle mae'r llwybr cyhoeddus yn rhan o lwybr cerdded hir Llwybr Clawdd Wat. Yma mae'r Clawdd heddiw ar ffurf clawdd a ffos anghyflawn a difrodedig gyda gwrych ar ei ben. I'r de fe'i dinistriwyd pan adeiladwyd yr A483 yn Lôn Tŷ Gwyn.


Dangosir pobl leol yn mynd â'r ci am dro ar hyd Clawdd Wat ond a ydyn nhw'n gweld olion y gwrthglawdd llinellol o'r canoloesoedd cynnar?

Mewn sawl lle o gwmpas Wrecsam difrodwyd neu dinistriwyd Clawdd Wat gan ffyrdd, adeiladau a gwaith adeiladu diweddarach. Weithiau dim ond y clawdd a welir, weithiau'r ffos, weithiau'r naill na'r llall. Er gwaetha'r difrod mae archaeolegwyr yn cyfeirio at Glawdd Wat fel 'gwrthglawdd llinellol' gan fod y clawdd wedi ei greu'n wreiddiol o gerrig a phridd mewn llinell hir a di-dor.

## Mynediad

Ar droed: o Lôn Blue Bell ar hyd llwybr troed. Dim mynediad i feiciau na sgwteri symudedd.

Mewn car: parciwch ar Lôn Blue Bell, 500m i gerdded ar laswellt.


Clawdd Wat yn y Pandy
Wrecsam
A483
I'r de tua'r Ysgol
Dŵr yng ngweddillion y ffos
Clawdd
Ffos
I'r gogledd at yr Afon Alyn

Mae pobl yn byw a dysgu ar Glawdd Wat!


Daeth Clawdd Wat yn rhan o faestref ogleddol Wrecsam pan godwyd Garden Village yn yr 1930au. Medrwch ei ddilyn ar hyd ffensys y gerddi i'r de o Lôn Tŷ Gwyn ac i'r gorllewin o Ffordd Clawdd Wat. Ar ben y bryn mae'n gwahanu Cae Chwarae Garden Village ac Ysgol Gynradd Clawdd Wat.

Ar i lawr mae'r clawdd wedi goroesi dan ffiniau eiddo y tu ôl i Ffordd Buckingham cyn mynd ar goll dan dai nes at dref Wrecsam. Yma gwelwn y clawdd yn yr oleddf o ale sy'n rhedeg o Ffordd Buckingham. Mae'r ffiniau hyn yn ein hatgoffa bod Clawdd Wat yn wreiddiol, mae'n debyg, yn rhan o'r ffin rhwng teyrnasoedd Cymreig y canoloesoedd cynnar yn y gorllewin a thiroedd Teyrnas Mersia yn y dwyrain.

## Mynediad

Ar droed: ar feic neu sgwter symudedd ar hyd ale o Ffordd Buckingham.

Mewn car: parciwch ar Ffordd Buckingham, 100m ar droed ar balmant.


Clawdd Wat wrth yr Ysgol
Ale i Buckingham Road, Garden Village
I'r gogledd i'r Pandy
I'r de i'r Cae Ras
Tu blaen y clawdd
Ffos

Mae pobl yn mynd i ddarlithoedd, chwarae tennis, gwylio pêl-droed a dal trên yn ymyl Clawdd Wat yng nghanol Wrecsam!


Medrwch weld y clawdd yn ymyl campws Prifysgol Glyndŵr, Canolfan Tennis Wrecsam a'r Cae Ras, cartref tîm pêl-droed Wrecsam. Ceir rhannau o Glawdd Wat sydd wedi eu difrodi'n ddifrifol rhwng y rheilffordd a Lôn Crispin. Mae archaeolegwyr yn chwilio o hyd am rannau eraill o'r clawdd sydd wedi goroesi ond sydd ynghudd.

Er bod yr hen glawdd wedi ei ddinistrio i raddau helaeth yng ngorsaf Wrecsam Cyffredinol, gwelir rhan a ailadeiladwyd rhwng y rheilffordd a gwesty'r Premier Inn ar Jacques Way. Gall ailadeiladu henebion fel Clawdd Wat fod yn ffordd dda i archaeolegwyr ddysgu pa ddulliau adeiladu a ddefnyddiwyd i'w codi a faint o ymdrech ac amser a gymerwyd.

## Mynediad

Ar droed: ar feic a sgwter symudedd: Ar hyd palmentydd rhwng Lôn Crispin, Wrecsam Cyffredinol a Jacques Way.

Mewn car: mae ambell faes parcio a mannau i barcio ar y ffordd.


Clawdd Wat wrth y Cae Ras
Stadiwm Pêl-droed Wrecsam
I'r gogledd i'r Ysgol
Clawdd
Lôn Crispin
Ffordd yr Wyddgrug A451
Gorsaf Wrecsam Cyffredinol
Premier Inn
Rhan o'r clawdd a ailadeiladwyd
I'r de i'r Fynwent
Stryt y Rhaglyw

Mae pobl Wrecsam yn siopa, mynd i'r coleg, tyfu llysiau a hyd yn oed yn claddu a choffáu meirwon ar hyd Clawdd Wat!

Mae'r Clawdd yn rhedeg i'r de o archfarchnad Morrisons rhwng alotments a thai i'r dwyrain a Choleg Cambria i'r gorllewin. Yna defnyddiwyd ef fel ffin orllewinol wreiddiol Mynwent Wrecsam a agorwyd yn 1876.

Heddiw mae Clawdd Wat i'w weld o hyd yn rhedeg drwy ganol y fynwent. Mae llwybr lle bu'r ffos ac mae nifer o feddau trawiadol o flynyddoedd olaf Victoria ar y clawdd. Roedd y Clawdd yn nodwedd dirwedd addas ar gyfer mynwent Victoraidd.

Mae dau o lwybrau'r fynwent yn croesi'r Clawdd a heddiw mae arwyddion dwyieithog i ddangos ei gwrs. Mae gan archaeolegwyr a haneswyr ddiddordeb yn y gwahanol ffyrdd y cofir y clawdd mewn gwahanol leoedd. Pam mae wedi'i nodi yma ar arwydd y fynwent ac ar y llwybrau ond nid lle mae Clawdd Wat yn mynd heibio Morrisons neu yn ymyl yr alotments?

## Mynediad

Ar droed ac ar sgwteri symudedd: ewch drwy'r giatiau ar Ffordd y Bers neu Ffordd Rhiwabon. Rhaid cerdded efo beic drwy'r fynwent.

Mewn car: lle parcio wrth fynedfa Ffordd y Bers, 500m i gerdded ar arwyneb palmantog; parcio cyfyngedig wrth fynedfa Ffordd Rhiwabon, 50m i gerdded.



Clawdd Wat yn y Fynwent
Bedd Susan Hicks Dennis, m. 1891
I'r gogledd i'r Cae Ras
I'r de i Court Wood
Clawdd

Yng Nghoed Court, sy'n rhan o Barc Erddig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, medrwch gerdded ar hyd Clawdd Wat lle mae'n cyrraedd a dilyn pen y llechwedd uwchben dyffryn Clywedog. Mae ffensys tai preifat ar ben y clawdd ond mae'r ffos a thu blaen y clawdd i'w gweld mewn dau le.

Yn wreiddiol roedd Clawdd Wat, sydd wedi erydu bellach, yn disgyn i groesi llawr y dyffryn ger cymer Clywedog a'r Black Brook cyn dringo llethrau serth eto ger Castell Erddig. Fel wrth yr Afon Alyn dan fryngaer Bryn Alyn (panel 1), byddai'r Clawdd yn y fan hon wedi rhwystro tramwywyr gan dremio dros ddyffryn Clywedog.

Roedd sgarp serth, naturiol yr afon ar y cyd â'r clawdd a'r ffos (gyda chymorth gwylfeydd, begynau a giatiau rheoledig efallai) yn cynnig ffin gymhleth. Roedd y Clawdd yn rheoli ac yn cyfyngu ar symudiadau pobl gyda'u hanifeiliaid a'u nwyddau; gellid diogelu ffermwyr a masnachwyr a'u cyfeirio i dalu tollau yn ystod cyfnodau o heddwch, yn union fel y gellid gwylio ac atal ymosodwyr yn ystod rhyfel.

Yma mae pendefig o Fersia ar gefn ceffyl a'i ryfelwyr yn atal ffermwyr sy'n dod â'u gwartheg i'r farchnad.

## Mynediad

Ar droed: 300-700m i gerdded ar lwybrau troed cul a serth o gwmpas parcdir Erddig. Maent wedi eu marcio'n glir a gellir cyrraedd o Wrecsam neu Blas Erddig. Dim mynediad i feiciau na sgwteri symudedd.

Mewn car: parciwch yn y gilfan ar yr A5152 gyferbyn â Mynwent Wrecsam neu defnyddiwch feysydd parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghanolfan Awyr Agored Melin Puleston neu brif faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Erddig.


Clawdd Wat yng Nghoed Court
I'r gogledd i'r Fynwent
Clawdd
I'r de i Gastell Erddig
Ffos
Afon Clywedog

Croesai Clawdd Wat yr afon Clywedog ger ei chymer â'r Black Brook. Parhaodd y lleoliad strategol hwn a dewiswyd y pentir ar ochr ddeheuol y dyffryn a edrychai dros y nant a'r afon fel safle ar gyfer castell Eingl-Normanaidd yn hwyr yn yr 11eg ganrif. Fe'i codwyd o bosibl gan Hugh de Avranches, Iarll Caer.


Er eu bod wedi eu codi mewn cyfnodau gwahanol iawn a chanrifoedd ar wahân, gwnaeth Clawdd Wat a Chastell Erddig ddefnydd o'r topograffi i reoli a thra-awdurdodi ar y ffindir Eingl-Gymreig. Ai dau gam ydynt yn y modd y gwladychwyd y dirwedd: gan y Mersiaid yn gyntaf ac yna gan y Normaniaid?

## Mynediad

Ar droed: 750m+ i gerdded o Blas Erddig. Dim mynediad i feiciau ond mynediad rhannol i sgwteri symudedd.

Mewn car: parciwch ym mhrif faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Erddig.

Clawdd Wat yng Nghastell Erddig




Bydd ymwelwyr ag Erddig, eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol , yn ei chael hi'n anodd credu bod Clawdd Wat ar un adeg yn rhedeg ar ben y gefnen uwchben Black Brook yn union o flaen Plas Erddig a godwyd yn yr 1680au ac a foderneiddiwyd ac a ehangwyd yn yr 1720au. Chwalwyd Clawdd Wat yn y fan fon tra gwnaed gwaith ar y Plas, o bosibl pan gomisiynodd Philip Yorke I William Emes i ddylunio'r gerddi ffurfiol rhwng 1768 ac 1780.

Roedd y chwyldro diwydiannol wedi cychwyn ac roedd gwaith haearn y Bers wedi'i hen sefydlu ond roedd pyllau glo'r Bers a'r Hafod heb effeithio'r nenlinell. Mae Yorke a'i bensaer Emes yn gwylio rhan o Glawdd Wat ar ymyl Big Wood yn cael ei chwalu.

## Mynediad

Ar droed: 650m i gerdded o Blas Erddig. Dim beiciau a mynediad ar sgwteri symudedd oddi ar y ffordd yn unig. Ewch i wefan Parc Gwledig Erddig i weld y llwybrau hygyrch.

Mewn car: parciwch ym mhrif faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Erddig.



Clawdd Wat yn Big Wood
Chwalu Clawdd Wat, t. 1780
I'r de i Barc Erddig
Clawdd
I'r gogledd i Gastell Erddig

Sir Cyril Fox oedd y cyntaf i archwilio Clawdd Wat mewn modd systematig fel rhan o'i ymchwiliad ehangach i Glawdd Offa. Yn ystod 1932, gwnaeth arolwg o'r rhan sydd mewn cyflwr da ger y Nythle Brain i'r de o Blas Erddig.

Bu cloddio ar raddfa fechan ar Glawdd Wat yn ystod yr 1970au-1990au dan ofal David Hill a Margaret Worthington, gan gynnwys cloddio ym Mharc Erddig. Yna, gwnaed cloddiad pwysig ar raddfa fawr yn Gobowen (Sir Amwythig) yn 2006 gan Tim Malim a Laurence Hayes gan archwilio a dyddio Clawdd Wat trwy ddyddio radiocarbon (C14) ac ymoleuedd ysgogi optegol (OSL) a awgrymodd ddyddiad cynnar yn y 9fed ganrif OC.


Casglwyd rhagor o wybodaeth yn 2018. Gwnaed cloddiadau mewn sawl lleoliad ym Mharc Erddig gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys. Mae eu gwaith wedi cadarnhau llwybr a nodweddion y clawdd mewn mannau na ellid bod yn sicr ei fod wedi'i godi o gwbl! Hefyd mae dyddiadau gwyddonol newydd yn cadarnhau mai heneb o'r canoloesoedd cynnar yw Clawdd Wat. Ond ni wyddom eto pryd yn union y codwyd ef nac am ba hyd y'i defnyddiwyd.

Rhaid gofyn: ai adeiladwaith un-cyfnod oedd Clawdd Wat? Ynteu a godwyd gwahanol rannau o Glawdd Wat gan ddilyniant o benaethiaid Mersia, a hynny am wahanol resymau a thros gyfnod hirach? Efallai y bydd archwilio pellach yn ateb y cwestiynau hyn!

## Mynediad

Ar droed: ar lwybr troed o Blas Erddig (500m), llwybr troed o Ganolfan Awyr Agored Melin Puleston (1.7km) neu lwybr troed o Goed y Glyn (2.1km). Mynediad i sgwteri symudedd oddi ar y ffordd yn unig. Ewch i wefan Parc Gwledig Erddig i weld y llwybrau hygyrch.

Mewn car: parciwch ym maes parcio Plas Erddig, mewn cilfan ar Ffordd Rhiwabon neu ym maes parcio Canolfan Awyr Agored Melin Puleston.


Clawdd Wat ym Mharc Erddig
I'r gogledd i Big Wood
Clawdd
Ffos
Cloddio Clawdd Wat
Mehefin 2018
Cyffro mawr (a braidd yn syn ein bod wedi bod mor lwcus) pan gafwyd hyd i ddarn bach ond arwyddocaol o grochenwaith o'r ffos a hefyd rhagor o ddeunyddiau siarcol. Bydd ceisio darganfod o ble y daeth y darn bach hwn o
rhan bwysig o'n hastudiaethau
Hoffi
I'r de i gyfeiriad Middle Sontley
Clawdd
Ffos
Surveying Wat's Dyke, 1932

Mae'n debyg bod Clawdd Wat wedi'i godi gan un neu nifer o frenhinoedd olynol teyrnas Eingl-Sacsonaidd Mersia rhwng yn hwyr y 7fed ganrif a blynyddoedd cynnar y 9fed ganrif OC. Yn debyg i Glawdd Offa, sy'n hirach, heneb a godwyd ar gyfer rhyfel a heddwch ydoedd: datganiad o ideoleg, grym ac awdurdod gwleidyddol, clawdd ffiniol milwrol ar gyfer ymosod ac amddiffyn, a strwythur i reoli masnach a chyfnewid a'r dirwedd ei hun.


Adeiladodd gwaith David Hill a Margaret Worthington, a fu'n archwilio'r heneb fel rhan o Brosiect Clawdd Offa, ar waith Cyril Fox gan awgrymu bod Clawdd Wat yn rhedeg yn ddi-dor o Ddinas Basing ar aber yr afon Dyfrdwy i'r de i Maesbury yn Sir Amwythig: 64km!

I'd de o Ystad Erddig gwelir darn trawiadol o'r clawdd a'r ffos o fewn terfynau caeau cyfoes. Pam na fwynhewch gefn gwlad ardal Wrecsam trwy ddilyn Llwybr Clawdd Wat i'r de o Erddig i Middle Sontley a thu hwnt?

## Mynediad

Ar droed: llwybr troed o Blas Erddig (700m), llwybr troed o Ganolfan Awyr Agored Melin Puleston (2km) neu lwybr troed o Goed y Glyn (2.2km). Ewch i wefan Parc Gwledig Erddig i weld y llwybrau hygyrch.

Mewn car: parciwch ym maes parcio Plas Erddig, Coed y Glyn neu Ganolfan Awyr Agored Melin Puleston.


Clawdd Wat i gyfeiriad Middle Sontley
I'r gogledd i Barc Erddig
I'r de i gyfeiriad Middle Sontley a Bryngaer Caer Ogyrfan
Llwybr Clawdd Wat
Clawdd
Ffos

# Beth yw Clawdd Wat?
## Cyfeiriadau ac Adnoddau

Nid yw stori Clawdd Wat yn gorffen yma. Mae llawer mwy i'w ddarganfod a'i ddysgu am hanes, archaeoleg a threftadaeth yr heneb hynod ddiddorol hon.

Rydym wedi casglu cyfeiriadau ac adnoddau ar y dudalen nesaf os hoffech ddysgu mwy am Glawdd Wat, gwrthgloddiau llinellol eraill a Phrydain yn ystod y canoloesoedd cynnar.

Ac oherwydd nad ysgrifennwyd holl hanes Clawdd Wat hyd yma, rydym wedi cynnwys dolenni i wefannau lle mae archaeolegwyr a haneswyr yn trafod ymchwil gyfredol am Glawdd Wat a gwrthgloddiau cynnar eraill. Ymhlith y pethau a gewch yma bydd adroddiadau ar waith archaeolegol diweddar, erthyglau ar ddyddio Clawdd Wat a thrafodaethau ar sut a pham y codwyd ef.

Argymhellwn hefyd eich bod yn ymweld â Chanolfan Clawdd Offa yn Nhrefyclo, ar y ffin rhwng Powys a Sir Amwythig, a redir gan Gymdeithas Clawdd Offa. Gwrthglawdd cynnar yw Clawdd Offa sy'n debyg iawn i Glawdd Wat ond ei fod yn hirach o lawer. Mae Cymdeithas Clawdd Offa yn noddi a chefnogi ymchwil i Glawdd Wat yn ogystal â Chlawdd Offa ac mae eu harddangosfa newydd yn eu canolfan ymwelwyr bellach yn cynnwys gwybodaeth am y ddwy heneb. I weld yr oriau agor a mwy o wybodaeth ewch i: https://offasdyke.org.uk/

Mae Prifysgol Caer yn rhedeg rhaglenni gradd i israddedigion a graddedigion lle medrwch archwilio archaeoleg y canoloesoedd cynnar. Am fwy o wybodaeth ewch i: https://www1.chester.ac.uk/departments/history-and-archaeology

## Llyfrau

Ray, K and Bapty, I. 2016. Offa's Dyke, Landscape and Hegemony in Eighth-Century Britain. Oxford: Windgather Press.

Gleave, K., Williams, H. and Clarke, P. (eds) 2020. The Public Archaeologies of Frontiers and Borderlands. Oxford: Archaeopress.

Malim, T. and Nash, G. (eds) 2020. Old Oswestry Hillfort and its Landscape: Ancient Past, Uncertain Future, Oxford: Archaeopress.

## Erthyglau mewn Cyfnodolion

Belford, P. 2019. Hidden earthworks: excavation and protection of Offa's and Wat's Dykes, The Offa's Dyke Journal 1: 80–95.

Hill, D. 2020. "Offa's and Wat's Dykes". The Offa's Dyke Journal, Vol. II, pp. 141-159.

Swogger, J. 2019. "Making Earthworks Visible: The example of the Oswestry Heritage Comics". The Offa's Dyke Journal, Vol. I. pp. 137-156.

Worthington Hill, M. 2019. "Wat's Dyke: An archaeological and historical enigma". The Offa's Dyke Journal, Vol. I, pp. 58-79.

## I Ddarllenwyr Iau

Swogger, J. 2018. The Oswestry Heritage Comics. Oswestry: Qube.

Williams, B. 1995. History of Britain: The Saxons & Vikings. London: Heinemann.

## Adnoddau Ar-lein

The Offa's Dyke Collaboratory – A Research Network for Offa's Dyke, Wat's Dyke and Early Medieval Western Britain: https://offaswatsdyke.wordpress.com/

The Offa's Dyke Journal: http://revistas.jasarqueologia.es/index.php/odjournal/index

# Beth yw Clawdd Wat?



Mae llwybr treftadaeth comics Clawdd Wat yn gyflwyniad gwych i bobl o bob oedran i un o gyfrinachau treftadaeth mwyaf Wrecsam: yr heneb drydydd hiraf ym Mhrydain!

Dysgwch am orffennol, presennol a hyd yn oed dyfodol y gwrthglawdd hynod hwn o'r canoloesoedd. Dilynwch ei stori o'r Oesoedd Canol cynnar, trwy'r Goresgyniad Normanaidd, y Chwyldro Diwydiannol, Oes Victoria ac ymlaen hyd heddiw, a dysgwch sut mae ei stori wedi helpu i lunio Wrecsam a'i hanes.

Medrwch weld y llwybr comics ar-lein hefyd:

https://offaswatsdyke.wordpress.com/whats-wats-dyke-wrexham-comic-heritage-trail-by-john-g-swogger-and-howard-williams/